

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	11eg Gorffennaf 2019
TEITL	Rhaglen Ddigwyddiadau Gwasanaeth AHNE Llŷn
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhaglen ddigwyddiadau'r Gwasanaeth AHNE ar gyfer y misoedd i ddod.

2.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG

2.1 Bydd rhaglen o gyrsiau sgiliau gwledig yn cael eu cynnal eto eleni mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Choleg Glynllifon.

2.2 Mae'r cyrsiau hyn yn ddilyniant i'r rhaglen yn 2018 ble cynhaliwyd cwrs codi cloddiau ar fferm Porth Gwylan yn Nhudweiliog, a chwrs codi waliau cerrig sychion ar lethrau'r Eifl.

2.3 Mae'r prosiect hwn wedi ei adnabod yn nghynllun gwaith y Gwasanaeth AHNE oherwydd fod y cloddiau a'r waliau cerrig yn nodweddion mor amlwg yng nghymeriad tirlun yr ardal. Mae cofrestru ar gyfer y cyrsiau hyn yn hanfodol. Byddwn yn gyrru taflen wybodaeth yn fuan i chi yn ogystal â chynnwys gwybodaeth yn wasg.

3.0 TEITHIAU CERDDED

3.1 Bydd ein trydydd taith gerdded, a'r olaf am eleni yn cael ei chynnal ar Medi 29ain. Bydd John Dilwyn Williams yn arwain taith ym Mhlwyf Carnguwch.

3.2 Bydd y daith hon yn gylchdaith o Lithfaen, fydd rhoi cyfle i gael blas ar brosiect diweddar y Gwasanaeth yn y plwyf hwn i wella'r llwybrau. Byddwn yn ymweld ag amryw o safleoedd hanesyddol difyr fel tyddyn Llech Engan ac Eglwys Carnguwch. Mae cofrestru o flaen llaw yn hanfodol os gwelwch yn dda.

4.0 ARDDANGOSFA HANES LLEOL

4.1 Mewn cydweithrediad â Phwyllgor Neuadd Sarn, bydd y Gwasanaeth AHNE yn cyd-drefnu Arddangosfa yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc mis Awst. Bydd hen luniau o'r ardal i'w gweld yn ogystal â hen greiriau amaethyddol.

4.2 Bydd arddangosfa arbennig hefyd ar "Hen Felinoedd Llŷn". Mae Glyn Roberts wedi cynnal ymchwil manwl dros y misoedd diwethaf a bydd canlyniad ei waith i'w weld yn y digwyddiad hwn yn ogystal â darlith.

- 4.3 Mae croeso cynnes i bawb ymweld â'r Arddangosfa, gyda'r mynediad yn rhad ac am ddim. Mae cyfle i wirfoddoli hefyd – a gellir cysylltu gyda'r Gwasanaeth AHNE i wybod mwy.

5.0 CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH

- 5.1 Mae ein Cystadleuaeth Ffotograffiaeth yn agored – hyd nes y dyddiad cau, Hydref 25ain. Thema'r gystadleuaeth y tro hwn yw “Mwynhau'r AHNE”.
- 5.2 Rydym wedi cydweithio gyda busnesau lleol ar gyfer sicrau gwobrau gwerth chweil – sef Glampio Coed Rhoshirwaun, Oriol Tonnau Pwllheli a Cwt Tatws.

6.0 SESIWN CODI YMWHYBYDDIAETH PLANHIGION ESTRON YMLEDOL

- 6.1 Bydd sesiwn yn cael ei chynnal dros yr haf yn ardal Trefor er mwyn codi ymwybyddiaeth am wahanol blanhigion estron ymledol yn yr AHNE. Nod y sesiwn fydd addysgu sut i adnabod gwahanol blanhigion, sut maent yn effeithio ar yr amgylchedd o'n cwmpas a sut mae mynd ati i'w gwaredu yn gyfrifol.
- 6.2 Mae ardal y traeth yn Nhrefor wedi cael ei adnabod fel lleoliad sydd gyda enghraifft o ble mae Llysiau'r Dial a Jac y Neidiwr wedi gafael ac ymledu – felly mi fydd y sesiwn yn cael ei chynnal yn y Ganolfan gydag ymweliad safle i'r traeth i ddilyn.
- 6.3 Yn cydweithio gyda ni ar y prosiect hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a COFNOD (Y Ganolfan Gofnodion Amgylcheddol Leol ar gyfer Gogledd Cymru).
- 6.4 Buasem fel Gwasanaeth yn falch iawn os gallwch rannu'r wybodaeth am y digwyddiad hwn - yn enwedig os ydych yn cynrychioli Cyngor Cymuned, a'n cynorthwyo i farchnata gan fod sawl ardal yn Llŷn ble mae'r planhigion hyn yn bresennol ac yn afreolus.

7.0 DIWRNOD AWYR DYWYLL

- 7.1 Mewn cydweithrediad â Phrosiect Nos, bydd y Gwasanaeth AHNE yn rhan o ddigwyddiad yn Nant Gwrtheyrn ar Hydref 29ain i godi ymwybyddiaeth am awyr dywyll Llŷn.
- 7.2 Bydd manylion pellach yn y wasg yn fuan. Unwaith eto – croesewir gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r digwyddiad hwn. Gellir cysylltu gyda'r Gwasanaeth AHNE am ragor o wybodaeth.

8.0 ARGYMHELLIAD

- 8.1 Gofynir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod a rhannu ble bynnag bo modd.